Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: <u>Tiwtor GREAT mewn Seicoleg Ymddygiadol</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Seicoleg |
| **Gradd a Chyflog:** | Gradd 7: £34,132 i £38,249 y flwyddyn ynghyd â buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 3.5 awr yr wythnos (10% CALl) |
| **Contract:** | Cyfnod penodol o chwe mis (oherwydd cyllid allanol) o fis Ionawr 2026 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd:** | Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i ddarparu'r safon uchaf bosib o addysgu a phrofiad myfyrwyr. Mae'r swydd hon am Diwtor GREAT mewn Seicoleg Ymddygiadol sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr yn hollbwysig wrth gyflawni'r ymrwymiad hwnnw. Bydd y Tiwtor GREAT mewn Seicoleg Ymddygiadol yn angerddol am addysg a gweithio gyda myfyrwyr a bydd yn ymrwymedig i wella ansawdd addysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr. Bydd yn cyfrannu at gyflwyno dysgu ac addysgu rhagorol mewn amrywiaeth o ffyrdd a lleoliadau, er enghraifft, grwpiau tiwtorial bach, seminarau a gweithdai, dosbarthiadau ymarferol a chyrsiau maes a darlithoedd mawr. Gall hyn gynnwys datblygu ei ddeunydd addysgu ei hun neu ei ddiweddaru, gosod a marcio asesiadau a rhoi adborth amserol i fyfyrwyr. Yn ogystal, gall y Tiwtor GREAT mewn Seicoleg Ymddygiadol gyfrannu at recriwtio, gwaith allgymorth a gweithgareddau cymorth eraill i fyfyrwyr.<br><br>Dylai'r **<u>Tiwtor GREAT mewn Seicoleg Ymddygiadol</u>** fod ar gael i ddarparu addysgu ac addysg i fyfyrwyr yn ystod oriau amserlen addysgu craidd penodedig y brifysgol; cefnogi ffurfiau anhraddodiadol o addysg, recriwtio a gweithgareddau allgymorth, ac efallai bydd angen gweithio y tu allan i oriau gwaith ar adegau, gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae rôl y **<u>Tiwtor GREAT mewn Seicoleg Ymddygiadol</u>** yn canolbwyntio'n llwyr ar ddarparu addysg o ansawdd uchel, recriwtio myfyrwyr a chynnig profiad rhagorol i fyfyrwyr. Felly, nid oes disgwyl na chyfle i'r **<u>Tiwtor GREAT mewn Seicoleg Ymddygiadol</u>** ymgymryd ag ymchwil neu ysgolheictod gwreiddiol, ar wahân i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni ei rôl yn effeithiol. Dyma swydd am gyfnod penodol oherwydd cyllid allanol.<br><br>Mae'r meysydd addysgu yn cynnwys darlithoedd israddedig mewn seicoleg dysgu, dysgu cysylltiadol a chyflyru gweithredol. Mae'r swydd yn gofyn am ddarparu gweithgarwch dysgu ac addysgu myfyrwyr o safon uchel ynghyd ag ymrwymiad i wella profiad cyffredinol y myfyrwyr a byddai o fudd i rywun sydd â chefndir mewn dysgu cysylltiadol, dadansoddi ymddygiad neu seicopatholeg arbrofol. |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | Bydd dyletswyddau cyffredinol yn cynnwys, fel y bo'n briodol, rai neu bob un o'r canlynol:<br>1. Cyflwyno addysgu o safon ar draws ystod eang o ddeunydd craidd a deunyddiau eraill sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth.<br>2. Datblygu eich deunyddiau dysgu ac addysgu o safon eich hun<br>3. Cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno modiwlau a rhaglenni newydd a phresennol<br>4. Gosod a marcio gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau eraill yn ôl yr angen, gan roi adborth effeithiol i fyfyrwyr yn ysgrifenedig ac ar lafar<br>5. Cefnogi gweithgareddau sy'n gwella profiad cyffredinol myfyrwyr ac yn cyflawni canlyniadau llwyddiannus i fyfyrwyr, gan gynnwys arolygon profiad myfyrwyr, canlyniadau gradd, cadw myfyrwyr a dilyniant<br>6. Cynorthwyo i ddatblygu sgiliau astudio myfyrwyr, gan nodi ac ymateb i dueddiadau carfan ac anghenion unigol<br>7. Cyfrannu at weithgareddau allgymorth y ddisgyblaeth<br>8. Unrhyw ddyletswyddau addysg a phrofiad myfyrwyr eraill y gellir gofyn yn rhesymol am eu gwneud |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

## Meini Prawf y Fanyleb Person

1. Gradd israddedig dda (h.y. gyntaf/ail ddosbarth uwch) a gradd Meistr dda (h.y. Rhagoriaeth) mewn seicoleg neu faes gwyddonol cysylltiedig agos.
2. Cymhwyster addysgu cydnabyddedig, neu ymrwymiad i gyflawni hyn (e.e. Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Uwch).
3. Tystiolaeth o ddarparu addysgu rhagorol a phrofiad dysgu o safon i fyfyrwyr, gan gynnwys defnyddio Amgylcheddau Dysgu Rhithwir.
4. Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig.
5. Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gan gynnwys y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â myfyrwyr, athrawon, academyddion, a busnesau a sefydliadau eraill.
6. Y gallu i weithio'n annibynnol gan ddefnyddio'ch menter eich hun, a hefyd i weithio'n dda fel rhan o dîm.
7. Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol, gyda gallu amlwg i fodloni terfynau amser heriol yn gyson.

## Meini Prawf Dymunol

8. Profiad o weithio mewn amgylchedd academaidd.
9. PhD neu ar fin cwblhau PhD mewn seicoleg neu faes gwyddonol cysylltiedig agos.
10. Hanes o gyhoeddiadau mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid a chyflwyniadau mewn cynadleddau academaidd yn gymesur â cham eich gyrfa.

## Yr Iaith Gymraeg:

Lefel 1 – 'ychydig' – ynganu geiriau Cymraeg Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd syml iawn (diolch, os gwelwch yn dda, etc.). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.

Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.

Athena SWAN Silver Award — ECU Gender Charter

Stonewall Cymru — Diversity Champion

HR Excellence in Research